

# Prosbectws Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyfer Asiantau Creadigol

Medi 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Dewch i ddathlu! Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau (llun: Tom Martin WNS)

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol? | 3 |
| Trosolwg o rôl yr Asiant Creadigol | 4 |
| Recriwtio a dethol Asiantau Creadigol | 5 |
| Sut mae Asiantau Creadigol yn cynorthwyo Ysgolion Creadigol Arweiniol? | 6 |
| Rôl yr Asiant Creadigol | 7 |
| Cymwyseddau Asiant Creadigol | 9 |
| Ffioedd a threuliau | 11 |
| Cymorth i Asiantau Creadigol | 11 |


hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, hawdd ei deall, Braille, ar sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Beth yw'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol?

Nod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yw hybu ffyrdd newydd o weithio, gyda rhaglenni dysgu arloesol wedi'u teilwra'n arbennig sydd wedi'u cynllunio i drawsnewid ansawdd addysgu a dysgu. Mae'n ymwneud â chefnogi ysgolion a'r heriau dysgu penodol y maent yn eu hwynebu. Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gweithio gydag ysgolion dethol drwy ddarparu'r bobl, y sgiliau a'r adnoddau creadigol sydd eu hangen i'w helpu i fynd i'r afael â'u heriau unigol.

Defnyddia'r cynllun dechnegau addysgu a dysgu datblygedig sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fod yn ymarferol ac yn berthnasol i ysgolion ac i ofynion y cwricwlwm mewn bywyd go iawn. Mae'r technegau hyn yn seiliedig ar ymchwil helaeth o bob cwr o'r byd i'r hyn sy'n gwneud ysgol yn llwyddiannus o ran ei pherfformiad.

Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn meithrin ac yn datblygu creadigrwydd dysgwyr er mwyn iddynt gyflawni eu potensial, tyfu'n unigolion cytbwys ac er mwyn iddynt gael eu harfogi â sgiliau ar gyfer bywyd. Rydym am sicrhau, mewn byd sy'n prysur newid, bod ein plant a'n pobl ifanc yn gallu diwallu anghenion yr economi a ffynnu yn amgylchedd cynyddol gystadleuol bywyd bob dydd.

Bydd pob Ysgol Greadigol Arweiniol yn gweithio gydag Asiant Creadigol, wedi'i ddewis a'i gontractio gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yr Asiant Creadigol yn rhywun sydd â dealltwriaeth ddofn o greadigrwydd a gyda sgiliau rheoli prosiect da. Byddant yn helpu'r ysgol i nodi ei hamcanion dysgu creadigol a phenodi Ymarferwyr Creadigol i helpu'r ysgol i gyflawni'r amcanion. Bydd yr ysgol a'i Hasiant Creadigol yn datblygu cynllun prosiect cyffredinol. Bydd yr Ymarferwyr Creadigol a ddewiswyd yn parhau i ddatblygu hyn yn gynllun manylach ar gyfer pob un o sesiynau gweithredu ar gyfer y prosiect.

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn rhoi cymorth i ysgolion dethol gan Asiantau Creadigol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, a darperir gwybodaeth am eu rôl a sut y cânt eu dethol yn y prosbectws hwn. Mae ysgolion yn ymuno â rhaglen hirdymor a'i nod yw eu helpu i wneud y canlynol:

- gweithio gydag Ymarferwyr Creadigol yn eu hystafelloedd dosbarth i drawsnewid addysgu a dysgu;
- dyfeisio a gweithredu prosiect neu raglen waith sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau datblygu ysgol unigol;
- dod o hyd i ddulliau creadigol o wella llythrennedd, rhifedd a chyrhaeddiad, ac i leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol;
- ymbaratoi at weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, 2022;
- gwreiddio newidiadau mewn arferion addysgu gan arwain at effaith gynaliadwy;
- rhoi'r celfyddydau a chreadigrwydd wrth wraidd bywyd yr ysgol; a
- chael eu cydnabod am eu hymrwymiad i wella drwy addysgu a dysgu creadigol a'r celfyddydau.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Trosolwg o rôl yr Asiant Creadigol

Mae Asiantau Creadigol yn chwarae rhan allweddol o ran helpu'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i gyrraedd ei nodau. Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan Asiantau Creadigol yn cydnabod natur gymhleth gwaith partneriaeth. Fel gweithwyr proffesiynol annibynnol, mae Asiantau Creadigol mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu perthynas gynaliadwy a chefnogol gydag athrawon a staff yr ysgol, dysgwyr a gweithwyr proffesiynol creadigol eraill er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, cyrhaeddiad a chynaliadwyedd sy'n arwain at welliant a newidiadau i addysgeg. Maent yn ddolen rhwng yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r Ymarferwyr Creadigol.

Mae angen i Asiantau Creadigol fod yn feddylwyr creadigol a meddu ar y gallu i gynhyrchu syniadau a chreu partneriaethau llwyddiannus rhwng ysgolion a'r sectorau creadigol, diwylliannol ac addysgol ehangach a thu hwnt drwy eu dealltwriaeth sicr a'u sensitifrwydd i anghenion y sectorau gwahanol hyn. Eu sgiliau allweddol yw eu gallu i herio a chefnogi ymarfer newydd ym maes dysgu creadigol. Mae Asiantau Creadigol yn defnyddio eu profiad ymarferol o 'greadigrwydd', a gallant weithredu fel catalydd sy'n gallu ymateb i flaenoriaethau ac anghenion datblygu unigol pob ysgol. Byddem yn disgwyl i Asiant Creadigol allu dangos profiad helaeth o ymarfer creadigol, ym maes ei arbenigedd. Bydd ganddo hefyd brofiad cryf o reoli prosiectau a bydd yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth i gyrraedd dyddiadau cau tynn.

P'un a ydynt o'r sector celfyddydau, diwylliant, treftadaeth, y diwydiannau creadigol, gwyddoniaeth neu sectorau eraill, eu sgiliau allweddol fydd eu gallu i herio, cefnogi a chynnal ymarfer newydd ym maes dysgu creadigol, mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â llythrennedd, rhifedd neu leihau effaith amddifadedd ar dargedau cyrhaeddiad addysgol yr Ysgolion Creadigol Arweiniol y maent yn gweithio gyda nhw.

Bydd Asiantau Creadigol yn cynorthwyo ysgolion ac Ymarferwyr Creadigol drwy fod yn fath o gyfaill beirniadol: gall hyn olygu gofyn cwestiynau heriol mewn cyd-destun cefnogol. Maent yn cynorthwyo ysgolion ac Ymarferwyr Creadigol i weithio gyda phobl ifanc fel partneriaid cyfartal. Maent yn helpu i wireddu potensial creadigol pob dysgwr i wneud dysgu'n fwy diddorol ac effeithiol drwy ddulliau creadigol.

## Recriwtio a dethol Asiantau Creadigol

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn dethol hyd at 30 o Asiantau Creadigol i weithio ochr yn ochr ag asiantau l cyfredol yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ystod y flwyddyn academaidd 2020/21. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o Ysgolion Creadigol Arweiniol fod yn rhan o'r cynllun am ddwy flynedd academaidd ac i'r mwyafrif barhau i weithio gyda'r un Asiant Creadigol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Bydd Asiantau Creadigol yn cael eu recriwtio o blith ystod o broffesiynau megis artistiaid a dylunwyr, ymarferwyr proffesiynol ym maes theatr, cerddoriaeth a dawns, awduron, gwneuthurwyr ffilm, artistiaid digidol, dylunwyr graffig, penseiri, gwyddonwyr, newyddiadurwyr a chynllunwyr gemau yn ogystal â chymysgedd o'r uchod. Gall Asiantau Creadigol fod yn hunangyflogedig neu'n sefydliadau o fewn y sector celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu ddiwydiannau creadigol. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais i ddarparu gwasanaethau Asiantau Creadigol roi enw unigolyn sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r rôl. Nid yw Asiantau Creadigol yn gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, disgwylir iddynt ymddwyn mewn modd priodol a fyddai'n ddisgwyliedig gan unrhyw un sy'n cyflawni rôl mewn ysgol. Mae Asiantau Creadigol yn llysgenhadon Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, partneriaid ariannu Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd yw **12pm (hanner dydd)** ar **18 Medi 2020.**

Ar ôl y dyddiad cau, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn dethol Asiantau Creadigol drwy ystyried eu gallu i gyflawni'r cymwyseddau a nodir ar gyfer y rôl yn y prosbectws hwn. Rhoddwn sylw ac ystyriaeth i gynyddu amrywiaeth yn rhan o'r broses. Rhoddwn bwys mawr ar ein hymrwymiad i gydweithio â phobl fyddar ac anabl, pobl dduon, pobl liw nad ydynt yn ddu a siaradwyr Cymraeg. Er na ragwelir cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, mae'n bosibl y bydd staff Cyngor Celfyddydau Cymru yn cysylltu ag ymgeiswyr dros yr e-bost neu'r ffôn i gael rhagor o wybodaeth. Bydd y broses ddethol yn ystyried yr angen i sicrhau bod Asiantau Creadigol o fewn pellter teithio rhesymol i ysgolion ledled Cymru ynghyd â'r rhai sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg.

Rhaid i bob asiant fynychu hyfforddiant dwys o ddeuddydd a hanner sy'n debyg o ddigwydd rhwng 13 a 22 Hydref 2020. Cynhelir cyrsiau drwy'r llwyfan Sŵm.

Efallai bydd angen i Gyngor Celfyddydau Cymru gynnal gwiriadau uwch Datgelu a Gwahardd ychwanegol ar yr holl unigolion a gaiff eu dethol i fod yn Asiantau Creadigol.

Er ein bod yn disgwyl paru'r mwyafrif helaeth o Asiantau Creadigol yn llwyddiannus gydag ysgolion, dylid nodi na ellir gwarantu gwaith oherwydd bydd hyn yn dibynnu ar nifer yr ysgolion yn y cynllun a'u lleoliad daearyddol. Hefyd ar ôl yr hyfforddiant ni fydd gan rai ymgeiswyr y cymwysterau angenrheidiol i fod yn asiant llwyddiannus. Rhoddwn wybod i'r rheini cyn gynted â phosibl ar ôl yr hyfforddiant.

Bydd swyddogion Cyngor Celfyddydau wedyn yn paru Asiantau Creadigol llwyddiannus ag Ysgolion Creadigol Arweiniol.

## Sut mae Asiantau Creadigol yn cynorthwyo Ysgolion Creadigol Arweiniol?

Mae tri cham allweddol y mae Asiant Creadigol yn eu dilyn er mwyn cynorthwyo ysgol drwy'r broses Ysgolion Creadigol Arweiniol a chaiff y gwaith hwn ei strwythuro dros y flwyddyn academaidd gyfan yn unol â chynllun tri thymor fel a ganlyn:

### Diagnostig, Cynllunio a Brocera

- **Diagnostig:** Dadansoddi sefyllfa'r ysgol a nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r broses Ysgolion Creadigol Arweiniol ac i'r ysgol deimlo perchnogaeth ohoni. Er mwyn sicrhau bod y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol mor effeithiol â phosibl, mae'n rhaid ei weithredu gyda'r ysgol ac nid ar ran yr ysgol.

- **Cynllunio a Brocera:** Nodi'r materion a'r blaenoriaethau allweddol y mae'r ysgol am fynd i'r afael â hwy. Datblygu cynllun gweithredu, gydag Ymarferwyr Creadigol priodol, i ddarparu rhaglen waith dysgu creadigol sy'n rhan sylfaenol o gynllun gwella'r ysgol. Ochr yn ochr â hyn, cytuno ar feini prawf a data meincnodi i'w casglu er mwyn rhoi tystiolaeth o effaith.

### Gweithgarwch

- **Rheoli Newid:** Helpu'r ysgol a'r Ymarferwyr Creadigol i gyflwyno a gweithredu newidiadau, rhai wedi'u cynllunio a rhai damweiniol, sy'n deillio o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

### Myfyrio, Gwerthuso a Chynaliadwyedd

- **Myfyrio:** Sicrhau bod pob rhanddeiliad perthnasol yn mynd ati i fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'r broses Ysgolion Creadigol Arweiniol.

- **Gwerthuso:** Cynnal sgyrsiau gwerthuso ar wahân gyda disgyblion, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Crynhoi a chyfuno'r canfyddiadau mewn adroddiad terfynol a gyflwynir fel rhan o ffurflen diwedd y prosiect. Dylai hon gynnwys tystiolaeth o'r effaith, data am y dysgwyr a gymerodd ran ynghyd â ffigurau monitro terfynol a'r gyllideb.

- **Cynaliadwyedd:** Gweithio gyda'r ysgol i gynllunio sut mae symud ymlaen, gan ymgorffori'r hyn a ddysgwyd drwy gyfrwng y rhaglen.

## Rôl yr Asiant Creadigol

Rôl yr Asiant Creadigol yw cefnogi'r broses o ddatblygu dysgu creadigol mewn ysgolion drwy:

- egluro a rhannu'r weledigaeth dysgu creadigol rhwng yr holl bartneriaid;
- datblygu prosiectau dysgu creadigol o ansawdd uchel; a
- chreu a chefnogi'r partneriaethau rhwng ysgolion a'r Ymarferwyr Creadigol er mwyn gallu cynnal prosiectau dysgu creadigol.

**Mae'n rhaid i'r Asiant Creadigol ddatblygu a rheoli perthynas effeithiol gydag ysgolion a:**

- gweithio mewn partneriaeth â thîm arwain yr ysgol er mwyn nodi maes gwaith clir a phenodol sy'n berthnasol ac yn bwysig i'r ysgol ac sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau a materion allweddol a nodwyd;
- ymchwilio i ddulliau creadigol, realistig a phenodol o ddatblygu'r maes gwaith hwnnw er mwyn creu prosiect sy'n unigryw ac yn benodol i'r ysgol honno ac yn gysylltiedig â'i hanghenion datblygu;
- datblygu prosiectau mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r cyfraniad gweithredol mwyaf posibl gan ystod eang o bartneriaid mewn dull cwbl gynhwysol ac sy'n helpu ysgolion i ddatblygu perchenogaeth o'r prosiect a chyfrifoldeb drosto; a
- chyflwyno eu harbenigedd creadigol a'u rhwydweithiau eu hunain i'r gwaith o ddatblygu Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

**Mae'n rhaid i'r Asiant Creadigol gynllunio a chreu perthynas yn effeithiol a:**

- gweithio gydag ysgolion er mwyn cyfrannu at y gwaith o recriwtio Ymarferwyr Creadigol;
- creu partneriaethau gydag Ymarferwyr Creadigol sy'n gallu gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer prosiect dysgu creadigol;
- gweithio gyda dysgwyr, athrawon a staff ysgol, a lle y bo'n briodol gyda rhieni a'r gymuned ehangach, i ddatblygu rhaglen ysbrydoledig o weithgareddau mewn partneriaeth ag Ymarferwyr Creadigol sy'n adlewyrchu nodau ac amcanion yr holl bartneriaid; a
- chysylltu'r ysgol â syniadau, dulliau, profiadau a sefydliadau eraill a allai gefnogi'r gwaith hwn

**Mae'n rhaid i'r Asiant Creadigol reoli'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn yr ysgol a:**

- monitro a rheoli amser yn effeithiol, er mwyn llunio cofnodion amserol cywir yn ôl y gofyn i roi tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu;
- cymhwyso gwerthoedd a pholisïau arfer gorau; sicrhau dull parhaus o fyfyrio, monitro, gwerthuso a sicrhau ansawdd; a
- sicrhau bod prosiectau mewn ysgolion yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau a phartneriaeth rhwng bob partner; bod cynlluniau yn ariannol hyfyw a bod prosesau ar waith ar gyfer casglu tystiolaeth o'r effaith ar ddysgwyr a fydd yn cynnwys defnyddio data perthnasol yr ysgolion.

**Mae'n rhaid i'r Asiant Creadigol gefnogi dulliau gwerthuso a chynaliadwyedd a:**

- chynorthwyo'r ysgol er mwyn nodi ac ymgorffori'r hyn a ddysgwyd yn ystod y broses gynllunio er mwyn cynnal y gwaith o ddatblygu dysgu creadigol ar draws agweddau perthnasol ar yr ysgol;

- sicrhau bod y prosiect yn canolbwyntio ar y materion allweddol a helpu'r ysgol i fyfyrio a gwerthuso'n barhaus; a

- rannu'r hyn a ddysgwyd gydag ysgolion eraill a gweithwyr proffesiynol creadigol sy'n ymwneud â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

**Mae'n rhaid i'r Asiant Creadigol gydweithio a:**

- gweithio gydag Asiantau Creadigol eraill a staff yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol drwy ddarparu diweddariadau rheolaidd a mynychu cyfarfodydd rhwydweithio;

- codi proffil Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a gweithredu fel llysgennad ar gyfer dysgu creadigol, gan gynrychioli'r cynllun mewn digwyddiadau yn yr ysgol a'r tu allan iddi er mwyn rhannu profiadau a hyrwyddo'r gwaith;

- mynychu sesiynau sefydlu a dysgu proffesiynol a chymryd rhan ynddynt;

- cyfrannu at y gwaith o ddatblygu amgylchedd gweithio a dysgu proffesiynol sy'n bwydo'r broses o ddatblygu a gwella'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn barhaus, yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol;

- cyfrannu at y ddealltwriaeth o amrywiaeth a goblygiadau hynny i greadigrwydd a dysgu creadigol a sicrhau bod y ddealltwriaeth hon yn llywio pob gweithgaredd o fewn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol; a

- sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu dilyn ac yn arbennig felly y polisïau Amrywiaeth, Diogelu ac Iechyd a Diogelwch.



Ysgol Gynradd Pantysgallog

## Cymwyseddau Asiant Creadigol

Cydnabyddir y bydd gwybodaeth, profiadau a sgiliau Asiantau Creadigol sy'n gweithio mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn amrywio. Nod y Cynllun yw adeiladu ar eu sgiliau presennol a pharhau i ddatblygu eu hymarfer. Er mwyn cael eu contractio gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddarparu gwasanaethau Asiant Creadigol, bydd angen i unigolion ddangos eu bod yn gallu bodloni llawer o'r cymwyseddau hanfodol a nodir isod.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | • Gwybodaeth am greadigrwydd, y broses greadigol a dysgu creadigol<br>• Gwybodaeth am y berthynas rhwng ymarfer creadigol yr Ymarferwyr Creadigol eu hunain a chreadigrwydd pobl eraill<br>• Gwybodaeth am gydweithio a gwaith partneriaeth effeithiol a dealltwriaeth ohono<br>• Dealltwriaeth o ysgolion, sut y cânt eu trefnu a'r heriau a wynebant<br>• Parodrwydd i ddeall a bod yn ymrwymedig i weledigaeth ac amcanion Ysgolion Creadigol Arweiniol<br>• Deall pwysigrwydd hyrwyddo'r defnydd ehangach o ddulliau dysgu creadigol gyda phartneriaid<br>• Deall ymarfer myfyriol<br>• Gwybodaeth am gyd-destunau addysgol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru y mae'r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gweithredu o'u mewn | • Dealltwriaeth o'r cwricwlwm ac anghenion ysgolion<br>• Dealltwriaeth o ddisgyblion fel cyd-gyfranogwyr mewn dysgu a dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn<br>• Dealltwriaeth o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol<br>• Dealltwriaeth o ddysgu creadigol a'i le mewn theori addysg gyfoes |

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Profiad | • Darparu gweithgareddau wyneb yn wyneb<br><br>• Profiad o feithrin perthynas hyderus a chynhyrchiol gydag ystod o randdeiliaid<br><br>• Yn dangos diddordeb brwd mewn amrywiaeth o arferion a rhwydweithiau diwylliannol<br><br>• Profiad o ddathlu cyflawniadau<br><br>• Profiad o werthuso | • Profiad o feithrin perthynas hirdymor, gynaliadwy gydag unigolion a sefydliadau<br><br>• Datblygu a darparu rhaglenni'r celfyddydau, diwylliannol neu ddysgu creadigol mewn ysgolion<br><br>• Profiad o ysgolion fel cyd-destunau cefnogol ar gyfer dysgu creadigol |
| Sgiliau | • Arbenigedd creadigol<br><br>• Sgiliau eirioli<br><br>• Y gallu i gynllunio prosiectau gan gynnwys rheoli cyllidebau a gweithio i derfynau amser<br><br>• Y gallu i chwilio am ystod o bartneriaid a gweithio ar y cyd â hwy<br><br>• Y gallu i fynegi syniadau a damcaniaethau am greadigrwydd gan ddefnyddio iaith hawdd ei deall<br><br>• Y gallu i ddyfeisio gyda chydweithwyr raglenni gweithgaredd sy'n cyflawni blaenoriaethau datblygu ysgolion a'u dysgwyr<br><br>• Lefel uchel o drefniadaeth bersonol a'r gallu i reoli amser yn ardderchog<br><br>• Sgiliau hwyluso a thrafod cadarn<br><br>• Y gallu i weithio gydag athrawon a dysgwyr fel partneriaid cyfartal | • Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>• Annog a datblygu ymarfer myfyriol |

## Ffioedd a threuliau

Bydd Asiantau Creadigol yn cael eu contractio gan Gyngor Celfyddydau Cymru am nifer benodol o ddyddiau fesul ysgol, fesul blwyddyn academaidd. Bydd hyn yn 10 diwrnod ar y mwyaf a chaiff y dyddiau hyn eu gwasgaru drwy gydol y flwyddyn academaidd. Telir cyfradd ddyddiol o £250 y dydd yn ogystal â threuliau rhesymol lle pan fo eu hangen. Mae'r taliad hwn yn cynnwys TAW a bydd unigolion neu'r sefydliadau y maent yn gweithio iddynt yn cyflwyno anfoneb ar gyfer y ffioedd hyn nid yn amlach nac unwaith y mis.

Mae'n bosibl y bydd pob Asiant Creadigol yn gweithio gyda sawl Ysgol Greadigol Arweiniol bob blwyddyn academaidd.

## Cymorth i Asiantau Creadigol

Bydd Asiantau Creadigol sy'n ymwneud â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cwblhau cwrs sefydlu ysbrydoledig ac ymarferol a fydd yn 2.5 diwrnod o hyd er mwyn ategu eu dealltwriaeth o'r rhaglen a'u rôl ynddi. Disgwyliwn i'r hyfforddiant ddigwydd rhwng 13 a 22 Hydref 2020.

Ad-delir costau teithio a chynhaliaeth gan y Cyngor pan fo angen.

Ochr yn ochr â hyn mae ysgolion yn chwarae rhan bwysig o ran helpu Asiantau Creadigol gyda'u dysgu, ac mae hyn yn nodwedd barhaus o'r berthynas gydweithredol. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ysgolion roi cymorth i Asiantau Creadigol o ran:

- deall galluoedd dysgu a gwybodaeth grwpiau oedran gwahanol;
- gweithio o fewn cyfyngiadau strwythurau amser ysgolion;
- deall y galwadau cymhleth ar ysgolion ac athrawon sy'n ymdrechu i sicrhau gwelliant ar draws agendâu â blaenoriaeth addysgol allweddol;
- deall data ysgolion a'u rôl wrth wella canlyniadau i bob dysgwr; a
- deall materion yn ymwneud â'r cwricwlwm a'r angen i gynllunio'n ddychmygus i fynd i'r afael â'r rhain.